



## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2015

*Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.*

*Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 13

Llwyddo: 0

Trist iawn yw gorfod nodi na lwyddodd yr un ymgeisydd yn y rownd hon. Yn wir, un ymgeisydd yn unig a lwyddodd i gyrraedd y safon ofynnol mewn un o'r ddau ddarn, hyd yn oed, gan fod o leiaf un elfen o'r pedair wedi cael gradd 2 neu is yn achos 12 o'r 13. Yn achos gwaith y mwyafrif, roedd mwy nag un elfen heb gyrraedd y safon, er na chafwyd yr un ymgais oedd yn wirioneddol wael. Wedi dweud hynny, roedd ambell ymgeisydd wedi llithro i radd 3 am yr ystyr, ac yn wir, dyna un o'r gwendidau pennaf yng ngwaith y garfan hon, gan fod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi ymbellhau'n ormodol o ystyr y gwreiddiol yn eu cyfieithiadau. O ystyried y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn, a'r ffaith bod disgwyl i rai sy'n llwyddo ar y lefel hon fedru golygu gwaith yn ogystal â'i gyfieithu, mae methu â chadw ar yr hyn sydd yn y testun gwreiddiol yn wall difrifol iawn.

Er gwaethaf hyn i gyd, roedd ambell un yn agos at y lan, a braf yw gallu nodi mai prin oedd y gwallau cywirdeb. Cymharol ychydig o frychau a gafwyd o ran cywair hefyd, er bod rhai ymadroddion Seisnig wedi llithro i'r gwaith, e.e. 'wedi profi'n boblogaidd', a 'tebygolrwydd uchel'.

Fel y nodwyd uchod, ystyr oedd y prif faen tramgwydd i'r ymgeiswyr y tro hwn, a chafwyd enghreifftiau fel y canlynol, oedd yn methu â chyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir:

*We can by no means downplay*

***Ni allwn fychanu***

*Unrest that sparked*

***Ymladd a arweiniodd at***

***Aflonyddwch oedd yn gyfrifol am***

*Fragile states*

**Gwladwriaethau brau**

*Is still no match for*

**O hyd yn well na**

*To be able to negotiate*

**Dod i ben â dehongli**

*Level of human interaction*

**Angen i bobl ryngweithio rhywfaint**

*Into certain tools*

**Yn rhan o rai taclau**

*Converts a word*

**Trosi iaith**

*Humanitarian emergency*

**Cyfyngder y ddynoliaeth**

*Hotter and drier*

**Cynnes a sych**

Gwaetha'r modd, cafwyd hefyd ddigonedd o enghreifftiau o gystrawen wallus, na fyddid yn disgwyl eu gweld ar y lefel hon, megis:

*For larger chunks of text*

**Am ddarnau mwy o destun**

*The Arab region as a whole already has*

**Yn gyfanbeth mae gan ranbarth yr Arabiaid eisoes**

*Give rural people the ability*

**Rhoi pobl cefn gwlad y gallu**

*Apps ... are free to download*

**Mae'n rhad ac am ddim i lwytho i lawr aps**

*Machines are incapable of considering*

**Mae peiriannau yn anghymwys i ystyried**

ac roedd tuedd gyffredinol i ddibynnu'n ormodol ar batrymau'r testun gwreiddiol, gan greu cyfieithiadau trwsgl. Enghraifft o hyn oedd ambell gyfieithiad slafaidd o deitl y darn cyntaf, megis: **Mae cyfieithwyr dynol yn dal i fod yn well nag apiau iaith**. Llawer gwell oedd ymgais ymgeisydd arall i gyfleu arddull newyddiadurol y darn trwy ddweud **Cyfieithwyr Dynol yn parhau i ragori ar Apiau iaith**. Cafwyd yr argraff, felly, nad oedd yr ymgeiswyr yn

rhoi sylw digonol i ystyr waelodol y darnau a osodwyd. Rhaid mynd ati i gyfleu union neges y testun gwreiddiol, a gwneud hynny mewn iaith raenus, naturiol. Fel arall, ni fydd y cyfieithiad yn darllen fel gwaith gwreiddiol, ac ni fydd yn argyhoeddi'r darllenydd.

Cafwyd trafferth gyda rhai elfennau yn arbennig. Yn y darn cyntaf, cafodd sawl un drafferth wrth gyfleu *quick translation of a foreign menu or road sign*, heb sylweddoli bod y gair 'foreign' yn berthnasol i 'menu' a 'road sign' fel ei gilydd, ac yn yr ail ddarn, parodd *canary in the mine* anhawster i sawl un, ac roedd yn amlwg nad oeddent yn deall arwyddocâd y dywediad hwnnw.

Fel y soniwyd eisoes, ni chafwyd yr un ymgais wirioneddol wan, ond wedi dweud hynny, ni theimlwyd ychwaith fod meistrolaeth yr un o'r ymgeiswyr ar grefft cyfieithu yn ddigonol i gyfiawnhau dyfarnu Aelodaeth Gyflawn iddynt, er bod rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus ac effeithiol, e.e.:

***Er gwaethaf yr holl gynnydd a'r datblygiadau technolegol a welwyd mewn rhaglenni iaith, nid yw cyfieithu peirianyddol yn yr un cae â chyfieithwyr dynol o hyd.***

***Mae'r ateb tymor hir yn amlwg: sef rhoi'r gallu i bobl cefn gwlad barhau i gynhyrchu a chael gwaith yn eu milltir sgwâr.***

Ond er bod rhai nodweddion digon addawol, ni ellid barnu bod mwyafrif y gwaith a gyflwynwyd yn y rownd hon o safon broffesiynol, gan fod angen cryn dipyn o ddiwygio a chywiro pellach arno. Carwn annog yr ymgeiswyr, felly, i anelu'n uwch, er mwyn sicrhau eu bod yn pontio'r bwch sydd rhwng Aelodaeth Sylfaenol ac Aelodaeth Gyflawn, fel eu bod yn medru cyflwyno gwaith gwirioneddol broffesiynol ei safon.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 3

Llwyddo: 2

Wrth droi at y cyfieithu i'r Saesneg, er mai nifer fach safodd yr arholiad y tro hwn, braf iawn yw gallu nodi bod dau ohonynt wedi llwyddo, ac nad oedd yr ymgeisydd aflwyddiannus ymhell o gyrraedd y nod ychwaith. Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu da yng ngwaith y 3 ymgeisydd, a'r anogaeth, felly, i'r un na fu'n llwyddiannus y tro hwn yw dal ati i fireinio'i grefft a magu profiad, gan ei fod yn agos iawn at y lan. Dim ond ambell wall cystrawen a'i cadwodd rhag llwyddo y tro hwn, ac mae'n sicr o fewn cyrraedd i'r safon.

Fel y soniwyd, felly, roedd cyfieithu da i'w weld yng ngwaith y 3 ymgeisydd, e.e.:

*Ai Methiant yw Maetheg?*

***Is Nutrition a No-hoper?*** (ymgais dda i gyfleu cyflythrennu'r gwreiddiol)

*lled-swyddogol*

***quasi-official***

*arwyddocaol mewn hanes*  
**historically significant**

*ar lawr gwlad*  
**at grass roots level**

*y llu o argymhellion*  
**the barrage of recommendations**

*nid da lle gellir gwell*  
**there is always room for improvement**

Ar lefel Aelodaeth Gyflawn, mae disgwyl i ymgeiswyr fedru ymdopi ag ystod eang o destunau, ac mae hynny'n golygu bod disgwyl rhyw lefel o wybodaeth gyffredinol ganddynt. Braff oedd gweld bod pob un o'r ymgeiswyr wedi creu cyfieithiad yr un mor llwyddiannus yn y ddau ddarn, a'u bod i weld yn ddigon cyfforddus yn y ddau faes cyferbyniol. Wedi dweud hynny, syndod oedd gweld cyfieithu trwsgl neu gam-gyfieithu mewn ambell fan lle disgwyliod y byddai'r termau priodol yn ddigon cyfarwydd, e.e.:

*datganiadau yn y wasg*  
**declarations in the press** (lle byddid yn disgwyl 'press releases')

*parhad y Gymraeg*  
**the continuation of the Welsh language** (yn hytrach na 'survival')

a chafwyd ambell enghraifft hefyd lle na roddwyd sylw digonol i gyd-destun y darn, e.e. cyfieithwyd 'arbenigwyr' fel 'specialists', er mai 'experts' oedd yn gywir yma, ac yn yr un modd, defnyddiwyd 'illness' yn hytrach nag 'ill-health'.

Fel y soniwyd eisoes, calonogol yw gweld mwyafrif o'r ymgeiswyr yn llwyddo, ond fy anogaeth i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, fel ei gilydd, fyddai parhau i fireinio'u crefft, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn eu gwaith, er mwyn sicrhau safon broffesiynol ym mhob cyfieithiad a luniant.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Diolch o galon i'r tîm cyfan am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

**Fiona Gannon**  
**Tachwedd 2015**